

Cyfarfod y Trydydd Sector
gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

9 Hydref 2017

Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

Carl Sargeant	Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Amelia John	Llywodraeth Cymru
Angharad Richards	Llywodraeth Cymru
Siân Williams	Llywodraeth Cymru
Anna Nicholl	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)
John Hallett	ACE Gweithredu yng Nghaerau a Threlái
Paul Glaze	Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol
Ian Davey	Cefnogi Trydydd Sector Cymru (CTSC)
Sean O'Neill	Plant yng Nghymru
Sarah Lloyd Jones	Yr Uned Pobl a Gwaith
Gareth Hughes	Race Equality First
Kate McColgan	Cyngor Rhyng-ffydd Cymru
Karen Lewis	Canolfan Cydweithredol Cymru
Peter Williams	Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru

Eitem 1 – Croeso

Estynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ei ddiolch i bawb am ddod.

Eitem 2: Cymunedau Cryf a Rhoi Grym i Gymunedau: safbwynt y trydydd sector (cyflwyniad gan y trydydd sector)

Tynnodd AN sylw at bwysigrwydd yr agenda cymunedau cryf i'r trydydd sector a rhannwyd y dulliau y mae GGC wedi eu defnyddio i drafod gyda'r trydydd sector ynghylch yr agenda cymunedau cryf. Er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl yn cymryd rhan, a bod y grŵp yn amrywiol, mae CGGC wedi defnyddio dulliau megis blogiau, podlediadau, trafodaethau mewn digwyddiadau ac ar y rhyngwyd.

Aeth SLJ yn ei blaen i amlinellu'r prif ganfyddiadau a ddaeth i'r amlwg o'r trafodaethau gyda'r trydydd sector am gymunedau cryf. Dyma nhw:

- Dylai Cymunedau Cryf ganolbwyntio ar gymunedau daearyddol neu thematig yn hytrach nag ar unigolion;

- Bydd sicrhau cymunedau cryf yn golygu cydweithio ag ystod o bartneriaid gan gynnwys busnesau, gwasanaethau cyhoeddus, gwasanaethau iechyd ac ati;
- Byddai angen i ddylanwadu ar newid yn ogystal â rhannu pŵer fod yn rhan o'r elfen o roi grym i greu cymuned gref;
- Nid yr hyn y mae cymunedau yn dod ynghyd i'w wneud sy'n bwysig o ran creu cymuned gref ond, yn hytrach, sicrhau bod cymunedau yn dod ynghyd i gydweithio tuag at nod gyffredinol, nod sy'n bwysig i'r gymuned benodol honno; a
- Byddai'r sector yn gwerthfawrogi datganiad clir ynghylch beth yn union yw rhoi grym i gymuned.

Amlinellodd SLJ y farn ar rai o'r pethau sy'n gallu helpu i gyflawni'r gwaith o roi grym i gymuned gref.

- Cael gwared ar y gystadleuaeth am gyllid rhwng sefydliadau cymunedol lleol (yn benodol, sefydliadau angori) ac annog dysgu ar y cyd rhwng y sefydliadau hyn;
- Mae diogelu a chefnogi'r lleoliadau y mae cymunedau yn ymgynnull ynddynt yn bwysig;
- Mae angen amser i ganiatáu i'r cymunedau ddatblygu'n gryf a grymus;
- Adfywio democratiaeth leol: rhan bwysig o sicrhau cymuned gref; ac
- Mae'n rhaid cael cefnogaeth weithiau i helpu cymunedau i gynnal y gweithgarwch a'r gwaith ymgysylltu yn y tymor hir.

Nododd SLJ hefyd y rhwystrau posibl o ran cyflawni cymuned gref:

- Methodolegau cyllido cystadleuol;
- Micro-reoli cyllid;
- Tynnu grym oddi wrth Ymddiriedolwyr;
- Pwysig i ddysgu o brofiad ar raglenni blaenorol.

Eitem 3: Trafodaeth ar y prif bwyntiau a godwyd yn y cyflwyniad

Estynnodd CS ddiolch i'r cynrychiolwyr am eu gwaith caled yn trin a thrafod cymunedau cryf. Awgrymodd CS nad oedd yn cytuno â'r holl ganfyddiadau ond roedd am drafod y pethau yr oedd angen eu gwneud er mwyn cyflawni cymunedau cryf gyda'r adnoddau prin sydd ar gael. Roedd CS yn cydnabod bod cynllunio ar gyfer y tymor hwy yn allweddol i lwyddiant.

Roedd SLJ yn cydnabod mai dod ag unigolion ynghyd yw dechrau'r broses o gyflawni cymuned gref. Ychwanegodd JH bod dod â phobl ynghyd i weithio ar fater sy'n bwysig i'r gymuned benodol honno yn allweddol. Gallai'r sefydliadau sy'n ymwneud â'r agenda hwn annog llawer o fewn y trydydd sector i gyfrannu at gymunedau cryf ond y byddai datganiad clir o'r hyn a olygir gan gymunedau cryf yn cael ei groesawu. Awgrymodd CS y byddai'n fodlon ystyried y ffordd orau i roi gwybod am y ffyrdd o feddwl am hyn, yn enwedig os oes diffyg eglurder am y ffaith na fydd rhaglen Cymunedau yn Gyntaf 2.

Awgrymodd AN bod yr iaith yn glir ond nad yw'r neges wedi cyrraedd pawb eto. Roedd CS yn glir mai ei fwriad oedd rhoi grym i gymunedau a bod y strategaeth Ffyniant i Bawb yn trafod newid ein ffordd o wneud pethau er mwyn cyflawni mwy, ac nad oedd hyn o reidrwydd ynghylch cyllid. Mae CS yn awyddus i glywed safbwyntiau ar ba fecanwaith a fydd yn gweithio, yn enwedig er mwyn helpu byrddau gwasanaethau cyhoeddus i werthfawrogi'r angen i gydweithio â chymunedau i sbarduno newid.

Awgrymodd PW y gallai atebion sydd wedi eu creu, megis Cymunedau yn Gyntaf, dynnu grym oddi wrth gymunedau. Ychwanegodd PW hefyd na ddylai'r trafodaethau â chymunedau fod ynghylch rhoi rhywbeth yn lle gwasanaethau sydd wedi eu canslo. Dywedodd bod cyfle gwirioneddol ar hyn o bryd i roi cefnogaeth i gymunedau o ran trosglwyddo asedau i ddarparu adnoddau iddynt ar gyfer y tymor hir.

Gofynnodd AJ sut y gellid peidio â dibynnu ar nifer bach o aelodau o'r gymuned i gyflawni, a sut i drafod â grŵp ehangach yn y gymuned. Awgrymodd SO sy byddai ysgolion yn lle da i gychwyn plannu'r syniad o ddyletswydd ddinasol.

Ychwanegodd ID y gallai CTSC gyflenwi peth o'r gefnogaeth ganolog a godwyd drwy gydol y cyfarfod. Cynigodd gael gyfarfodydd pellach gyda swyddogion i drafod.

Cam gweithredu: CTSC i drafod yn y cyfarfod nesaf o'r Grŵp Craidd ar gyfer Seilwaith ac yna i drafod â swyddogion yr isadran Cymunedau.

Cafwyd crynodeb o'r drafodaeth gan AN ac fe gytunwyd y byddai'r papur terfynol sy'n cael ei ddatblygu gan y sector yn cael ei rannu ag Ysgrifennydd y Cabinet. Cynigodd CS barhau i drafod â swyddogion ac y byddai yn cymryd cyngor ar gyfathrebu.

Cam gweithredu: CGGC i rannu'r papur terfynol a'r Ysgrifennydd Cymunedau.